# papur priordy



**MEDDWL AM FYD HEB UN ANIFAIL,**
**MEDDWL AM GAE HEB WARTHEG NAC ŴYN,**
**MEDDWL AM AFON HEB UN PYSGODYN,**
**MEDDWL AM WAWR HEB ADAR A'U SWYN:**
**DIOLCHWN, DDUW, AM DY HOLL GREADURIAID,**
**DIOLCHWN, DDUW, RHOWN GLOD I'TH ENW DI.**

**Doreen Newport** ***cyf*** **Siân Rhiannon**
**Caneuon Ffydd 869**

***Gweler yr erthygl y tu mewn***

**RHIFYN 367**
**PAPUR MEHEFIN 2023**

# Gair gan ein Gweinidog


## Cerflun Newydd i gofio Williams Pantycelyn




***BRAINT*** oedd bod yn bresennol yn Llanymddyfri fore Gwener 5 Mai 2023 i weld dadorchuddio cerflun newydd o waith **Gideon Peterson** i gofio am yr emynydd a'r bardd, William Williams




Pantycelyn, Clerigwr Methodistaidd, Awdur ac Emynydd, Fe ysgrifennodd Pantycelyn dros 800 o emynau a 90 o weithiau llenyddol amrywiol ac arloesol cyn ei farwolaeth ym 1791. Credir iddo deithio dros 80,000 o filltiroedd o amgylch y wlad i hybu'r efengyl, a hynny am ddeugain mlynedd



yn ddi-dor.  Yr hyn sy'n rhyfeddol yw bod emynau Pantycelyn yn parhau i gael eu canu hyd heddiw. Fe glywn eiriau ei emynau mewn oedfa ac mewn gêm rygbi. Maen nhw'n cael eu canu ar emyn-donau traddodiadol a hefyd mewn gwisgoedd cerddorol newydd.  Onid yw hi'n rhyfeddol bod ei brofiadau e drwy ei emynau yn dal i ddylanwadu?

Roedd Llanymddyfri yn llawn bwrlwm wrth iddi groesawu cenhedlaeth newydd o Gymry i'r dref ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd! Mae'n siŵr gen i y byddai Pantycelyn yn hynod o falch o wybod bod yr Eisteddfod hon yn cael ei chynnal yn ei filltir sgwâr eleni.

Gobeithio fod nifer o'r ymwelwyr wedi llwyddo i weld cerflun newydd



Pantycelyn. Fuoch chi yn ei weld tybed? Os na, beth am ymweld â'r dref dros yr haf?

***MAE'R*** cerflun wedi ei wneud o *ddur di-staen* ac wrth syllu arno, fe welwch eich adlewyrchiad ynddo. Byddwch yn edrych ar eich hunan rhwng dyfyniadau o waith yr emynydd. A dyna un peth sy'n nodweddu Williams Panycelyn - edrych ar ei gyflwr ei hunan a wnâi.  A dyw edrych arnom ni'n hunain ac ystyried ein cyflwr ddim yn beth drwg i'w wneud yn wir. Efallai y gwelwn ni, fel y gwelodd Williams Pantycelyn, fod angen Rhywun mwy na ni arnom i'n cynnal a'n harwain.



**GWEDDI**

**Gweddïwn**

**Cymer, Iesu, fi fel 'rydwyf,**
**fyth ni allaf fod yn well;**
**d'allu di a'm gwna yn agos,**
**f'wyllys i yw mynd ymhell;**
**yn dy glwyfau**
**bydda' i'n unig fyth yn iach.**

**Amen**



## DARLLENIADUR

| Mis Mehefin | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Mathew 28: 16-20 |
| Wythnos 2 | Mathew 9: 9-13, 18-26 |
| Wythnos 3 | Mathew 9:35; 10:8, (9-23) |
| Wythnos 4 | Mathew 10: 24-39 |

**DIOLCH YN FAWR**

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**DYDD GWEDDI’R BYD**
**ac**
**OLIVE LLOYD**

***at gyhoeddi’r Papur y mis hwn***

## PERERINDOD YR OFALAETH
## Dydd Sul 18 Mehefin 2023

### Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan




Bws yn gadael
*Sgwâr Bancyfelin am 9.30*
*Cana am 9.35*
*Heol Awst am 9.50*
*Heol y Prior am 10*
Coffi ar y ffordd. Dewch â phecyn bwyd i ginio
Oedfa yng Nghapel Penrhiw, Sain Ffagan, am 2
Swper ar y ffordd adref
*Pris: £25*
*Enwau ar y daflen yn y cyntedd*

**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**



**Daw cyfnod Beti-Wyn fel Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i ben ddiwedd y mis hwn yn ystod Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint, i'w cynnal 28-30 Mehefin 2023 yn Rhosllannerchrugog a Wrecsam. Dyma fanteisio ar y cyfle felly i'w holi ychydig am ei phrofiad wrth y llyw yn y swydd arbennig hon:**



**PP: Fe gawsoch eich derbyn i'r swydd mewn cyfnod digon anodd a heriol, on'd do?**
**BW:** *Do. Cefais fy urddo yn Llywydd mewn oedfa rithiol yn y lle cyntaf! Treuliais y flwyddyn gyntaf mewn cyfarfodydd dros zoom ond roeddwn yn hynod o falch o fedru cychwyn cyfarfod wyneb yn wyneb o'r diwedd. Bu rhaid i'r Undeb, fel yr eglwysi, addasu er mwyn cyflawni ei waith yn ystod y cyfnod clo. Erbyn hyn, mae rhai cyfarfodydd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb unwaith eto, ond rydym wedi dysgu hefyd fod modd parhau i gynnal ambell beth yn rhithiol – mae hyn yn arbeb talu costau teithio, a hefyd yn arbed amser teithio!*

**PP: Beth yn union yw disgwyliadau'r swydd?**
**BW:** *Bod yn wyneb i'r Undeb. Llywyddu Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb, Y Pwyllgor Gweinyddol a bod yn bresennol ar nifer o bwyllgorau eraill. Ymweld â'r Cyfundebau. Cynrychioli'r Undeb mewn cynadleddau, cyfarfodydd, oedfaon a dathliadau, Rhyddau negeseuon adeg prif wyliau'r eglwys a rhyddhau datganiadau i'r wasg pan fo galw am hynny.*

**PP: Beth am aelodaeth yr Undeb erbyn hyn?**
**BW:** Oddeutu *350 o eglwysi. 50 o weinidogion.*

**PP: Roedd hi'n dipyn o fraint cael bod yn Llywydd ar adeg mor bwysig yn hanes yr Undeb, sef Gŵyl Undeb 150 yng Nghaerfyrddin yn 2022.**
**BW:** *Oedd yn sicr. Aeth canrif a hanner heibio ers Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb a gynhaliwyd yng Nghapel Heol Awst ym 1872. Roeddem oll mor falch o gael croesawu'r Cyfarfodydd Blynyddol nôl i Gaerfyrddin ar gyfer y dathlu. Bu'n Undeb llwyddiannus iawn, ac roeddwn mor falch o*

*hynny. Er i'r Cyfarfodydd Blynyddol cyntaf gael eu cynnal ym 1872,*



*sefydlwyd yr Undeb ym 1871, mewn cyfarfod o weinidogion yng Nghapel Ebeneser, Abertawe. Cefais y fraint o lywyddu Darlith arbennig gan y Dr Prys Morgan, yn Ebeneser, Abertawe, ar 11 Hydref 2021 – canrif a hanner i'r noson y sefydlwyd yr Undeb. Roedd hynny'n dipyn o fraint.*

**PP: Daeth y cyfle i chi hefyd gyflwyno'ch anerchiad fel Llywydd yn ystod y Cyfarfodydd Blynyddol. Beth am y testun a ddewisoch?**

**BW:** '*Her yr Eglwys ôl-Covid'. Doedd dim oedd amheuaeth ynglŷn â'r testun. Mae'r anerchiad yn wahanol i anerchiadau'r gorffennol (yn fwriadol!) a cheir ynddo gyfres o fyfyrdodau byrion. Fy ngobaith yw y gellir defnyddio'r myfyrdodau mewn eglwysi ar y Sul. Roeddwn am i'r anerchiad fod o gymorth i eraill. Paratoiais anerchiad gwahanol i'w thraddodi wrth ymweld â'r Cyfundebau, a'i destun yw 'Dirnad a Darganfod Doniau'. Eto, gobeithio ei fod yn rhywbeth ymarferol sy'n medru bod o gymorth i'r eglwys ac yn ffrwyth trafodaeth bellach.*



**PP: Roedd eich anerchiad yn y Cyfarfodydd Blynyddol dipyn yn wahanol i'r un a draddodwyd gan Gwilym Hiraethog, y Llywydd cyntaf, ym 1872?!**



**BW:** *Oedd wir! Testun ei anerchiad ef oedd 'Satan'! 'Er hynny, meddai John Thomas: 'yr oedd yn un a ymddangosai yn feistr ar Satan yn trin ei gyflwr, ac yn dinoethi ei ddichellion.' Cefais y fraint o osod torch o flodau ar fedd Gwilym Hiraethog. Mae'n gorwedd ym mynwent Toxteth, Lerpwl. Roedd yn fraint, fel Llywydd presennol yr Undeb i ymweld â bedd y Llywydd cyntaf,150 o flynyddoedd yn ddiweddarach. 'Rydym yma o hyd!'*

**PP: Fel y dywedoch ynghynt, roedd gofyn i chi ymweld â'r gwahanol gyfundebau yn ystod eich cyfnod fel Llywydd – sut brofiad oedd hwnnw?**
**BW:** *Roeddwn wedi edrych ymlaen yn fawr at y wedd hon ar y gwaith, ond yn poeni na fyddwn yn medru ymweld â'r Cyfundebau oherwydd ein bod dal yn y cyfnod clo pan ges i fy urddo, ac wrth i ni ddod allan ohono, doedd nifer o gyfundebau ddim wedi ailgydio yn eu Cyfarfodydd Chwarter. Ond, erbyn ail flwyddyn fy Llywyddiaeth, roedd y Cyfundebau wedi cychwyn cyfarfod eto. Rwyf wedi gorfod ffitio'r ymweliadau i mewn i un flwyddyn yn lle eu rhannu rhwng dwy ond rwyf wrth fy modd yn ymweld â'r Cyrddau Chwarter. Mae'r croeso mor gynnes ac rwyf wedi cyrraedd mannau newydd a chwrdd â phobl newydd.*


**PP: A beth am ymweliadau y tu hwn hwnt i Gymru?**
**BW:** *Rwyf wedi croesi'r ffin ar sawl achlysur i gynrychioli'r Undeb mewn gwahanol ddigwyddiadau. Ymhlith y mwyaf cofiadwy oedd ymweliad diweddar ag Amsterdam (gweler Papur Priordy – Rhifyn Mai am yr hanes) a bod hefyd mewn oedfa arbennig yn y Neuadd Ganol yn Westminster i ddathlu 50 mlynedd ers sefydlu'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig. Mae'n dda o beth cael camu allan o'r hyn sy'n gyfarwydd i ni ar adegau er mwyn cwrdd â phobl newydd a* chlywed am eu profiadau.



**PP: Cawsoch gwrdd â llywyddion enwadau eraill yn ystod eich llywyddiaeth, siŵr o fod.**
**BW:** *Do, a chafwyd llun o'r 'Tri Llywydd' ym mhabell yr Eglwysi ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron y llynedd - Denzil Morgan (Undeb Bedyddwyr Cymru - ar y dde) Evan Morgan (Eglwys Bresbyteraidd Cymru) a minnau!*

**PP: Anodd dewis, mae'n siŵr, ond oes yna ryw gyfarfod neu ddigwyddiad yn ystod eich llywyddiaeth sy'n mynnu aros yn y cof?**
**BW:** Mae cymaint ohonynt, ond rhaid dweud iddi fod yn braf cwrdd ag arweinyddion yr Eglwys yng Nghymru hefyd – bûm yn eu Cynulliad

ddwywaith, ac roedd bod yn oedfa urddo **Andy John** yn Archesgob Cymru yng Nghadeirlan Bangor yn brofiad a fydd yn aros yn y cof. Cefais ychydig bach o chwysfa pan fu farw'r Frenhines a chlywed am goroni'r Brenin Siarl – ond ni ddaeth gwahoddiad i fynychu'r angladd na'r coroni!



**PP: A beth am y dyfodol? Tybed beth yw'r heriau sy'n wynebu'r Undeb, yn eich barn chi, wrth i ni symud ymlaen o gyfnod y pandemig?**
**BW:** Parhau i gefnogi ac annog yr eglwysi mewn cyfnod ôl-covid. Mae'r cyfnod clo wedi gadael ei ôl arnom ni i gyd, a neb llai na'r eglwysi. Parhau i gefnogi''r gweinidogion hefyd. Rydym yn mynd yn llai ac yn llai o ran nifer o flwyddyn i flwyddyn. Parhau hefyd i godi llais yn erbyn anghyfiawnderau a pharhau i weithio dros heddwch.

***Diolch yn fawr iawn i chi am ateb y cwestiynau*.**

**CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH**
**NOS SUL, 24 MEDI 2023 am 5**
**CAPEL PENYGRAIG, CROESYCEILIOG**



**Arweinydd**
**Meinir Richards - Llanddarog**

**Rihyrsals yng Nghapel Penygraig dan ofal Helen Gibbon**
**Nos Sul, 16 Gorffennaf am 5 a Nos Sul, 10 Medi am 5**

***Bydd yr emynau o Raglen Cymanfaoedd Canu 2022-2023. Pris Rhaglen yw £2 (Hen Nodiant / Sol-Ffa). Os ydych yn dymuno derbyn rhaglen a wnewch chi roi gwybod i Huw Michael mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda***

**AR Y WE: www. priordy.org** *(yn cynnwys Papur Priordy)*

## GWASANAETH DINESIG Y MAER A CHWRDD PLANT









**Meinir Jones...**



## Oedfa Ddinesig

***FORE SUL*** 14 Mai cynhaliwyd oedfa arbennig




yn y Priordy, a dweud y gwir cafwyd dwy oedfa yn un! Yn ogystal â bod yn oedfa deulu gyda phlant yr eglwys, Beti-Wyn a'r band, roedd hi hefyd yn oedfa ddinesig i ddathlu sefydlu Maer newydd tref Caerfyrddin, y Cynghorydd Wyn Thomas.

Ar ôl i Beti-Wyn estyn croeso cynnes i'r Maer a'r gwesteion eraill oedd yn bresennol, ymunodd y gynulleidfa i gyd-ganu'r emyn "Fe chwythodd yr awel ar Gymru drachefn" i gyfeiliant hwyliog y band, cyn i Greta a Miriam, Cadi ac Ifan, ac Aneirin a Brynmor fynd o gwmpas i gasglu'r offrwm. Roedd y casgliad yn cynnwys cyfraniadau at Gymorth Cristnogol, sef apêl y mis yn y Priordy.
Yn llawn brwdfrydedd ac egni, ymunodd y band taro i gyfeilio i'r emyn nesaf, Jubilate, ac ategwyd neges yr emyn yng ngeiriau'r darlleniad o lyfr y Salmau a gyflwynwyd gan y Maer.



A hithau'n achlysur pwysig ym mywyd dinesig Caerfyrddin, roedd hi'n naturiol bod llawer o sylw'n cael ei roi yn ystod y gwasanaeth i'r dref ei hun. Mewn sgwrs ddifyr, llawn hiwmor rhwng Trystan a Gwilym, a gyflwynwyd gyda'u ffraethineb arferol, daethom i wybod bod y traddodiad o gael Maer ar dref Caerfyrddin yn mynd yn ôl cannoedd o flynyddoedd i'r flwyddyn 1300, a bod Beti-Wyn yn gaplan y Maer am y degfed tro eleni. Yna mewn gweddi bwrpasol a gyflwynwyd yn glir gan



Gwydion, Iestyn ac Elliw, diolchwyd i Dduw am ein byd ac am deulu a ffrindiau, am ein tref a'i hanes ac am bopeth sy'n digwydd yn ein tref heddiw. Gweddïwyd hefyd dros y gymuned yng Nghaerfyrddin a phawb sy'n gweithio ynddi i wella bywydau pobl eraill. Wedi i Osian ddod ymlaen i gyflwyno rhodd i'r Maer i ddymuno'n dda iddo ar ei waith yn ystod y flwyddyn,

cyflwynwyd yr emyn nesaf, sef "Dyro dy gariad", yn eglur iawn gan Meredydd.

Roedd Beti-Wyn wedi paratoi cwis ar gyfer y gynulleidfa ar y thema Caerfyrddin - ein tref ni, i weld pa mor dda rydyn ni'n adnabod ein tref. Gan gystadlu yn erbyn ei gilydd, roedd yn rhaid i'r plant a'r oedolion yn eu tro ddyfalu ymhle yn y dref oedd y lluniau oedd yn ymddangos ar y sgrin. Cafwyd tipyn o hwyl a chystadlu brwd ond yn y diwedd y plant aeth â hi o un pwynt!

Esboniodd Beti-Wyn mai un elfen o waith y Maer yng Nghaerfyrddin yw trefnu Ras y Maer, digwyddiad a ddechreuwyd am y tro cyntaf gan Peter Hughes Griffiths ddeugain mlynedd yn ôl. Yn wir roedd llawer o'r plant wedi rhedeg y ras eleni ac ennill medal hardd. Wrth fynd ati i redeg ras, mae angen paratoi'n dda, gwisgo'r esgidiau cywir, cadw at y rheolau, cadw llygad ar y llinell derfyn, dal ati i gyrraedd y diwedd, a rhoi pobl eraill yn gyntaf.  Ac mae pob un o'r pethau hyn yn wir hefyd yn ein bywydau bob dydd – rhaid i ni baratoi ar gyfer ras bywyd drwy fynychu'r Ysgol Sul, gan gadw ein traed ar y ddaear a chadw ar y ffordd gywir wrth ddilyn Iesu Grist.



***I GLOI*** dathliadau Sul y Maer unodd pawb i ganu'r emyn ''Dysg i mi garu Cymru''. Diolch i bawb a gymerodd ran am wneud eu gwaith mor raenus a diolch i Beti-Wyn am drefnu'r oedfa arbennig.



**PANED A SGWRS**



**Bore Mercher - 10.30**

**Gwesty'r Llwyn Iorwg**

**21 Mehefin 2023**

**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**
***(Bydd rhaid i bob un brynu ei goffi ei hunan )***

♫ ♫



**CWIS Y SALMAU**

**Pa mor dda ydych chi'n 'nabod y salmau? Yn hytrach, pa mor dda ydych chi'n 'nabod y salmau yn fersiwn beibl.net?!!!!**
**Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu! Pob lwc!!**

## SALM 112

Mae bendith fawr i'r un sy'n parchu'r ARGLWYDD
ac wrth ei fodd yn gwneud beth mae'n ei -----.
Bydd ei ddisgynyddion yn llwyddiannus,
cenhedlaeth o bobl dduwiol yn cael eu --------.
Bydd e'n gyfoethog,
a bob amser yn byw'n gywir.
Mae golau'n disgleirio yn y ------ i'r duwiol;
y sawl sy'n garedig, yn drugarog ac yn gwneud beth sy'n ----.
Mae pethau'n mynd yn --i'r un sy'n hael wrth fenthyg
ac yn rheoli ei fusnes yn gyfiawn.
Fydd dim byd yn tarfu ----;
bydd pobl yn cofio ei fod wedi byw'n gywir.
Does ganddo ddim ofn newyddion drwg;
mae e'n trystio'r ARGLWYDD yn ----.
Mae e'n dawel ei feddwl, ac yn ofni ---;
mae'n disgwyl gweld ei elynion yn syrthio yn y diwedd.
Mae e'n rhannu ac yn rhoi yn hael i'r tlodion;
bydd pobl yn cofio'i haelioni bob -----.
Bydd yn llwyddo ac yn cael ei anrhydeddu.
Bydd pobl ddrwg yn gwylltio pan welan nhw hyn.
Byddan nhw'n ysgyrnygu eu ------, ac yn colli pob hyder,
am fod eu gobeithion nhw wedi diflannu.

**Atebion ar Dudalen 39**


**Peter Hughes Griffiths…**



## Capel Penrhiw

Ar ddydd Sul Mehefin 18ed fe fydd Pererindod yr Ofalaeth yn ymweld â'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan, a bydd ein gweinidog, y Parchedig Beti-Wyn James, yn ein harwain mewn gwasanaeth yno am ddau o'r gloch y prynhawn yng Nghapel Penrhiw.

Bydd cael bod yn bresennol yn yr oedfa honno yn achlysur arbennig iawn i mi yn bersonol gan i mi gael fy magu ym mhentref Dre-fach, Felindre, ac mae gen i gof clir pan oeddwn yn blentyn o fynd gyda fy mam i oedfaon prynhawn Sul yn yr haf i Gapel Penrhiw.



Capel Penrhiw yn ei gynefin

Capel Penrhiw ar ei newydd wedd

Capel Penrhiw

Arferai Capel Undodiaid Penrhiw sefyll ym mhentref Dre-fach, Felindre, ac mae'r plac sydd yno nawr yn nodi'r fan lle safai'r capel yn dweud y stori wrthon ni: *"Yma y safai Capel Undodiaid Penrhiw o 1777 hyd 1953. Fe'i ail godwyd yn 1956 trwy ganiatâd yr Enwad yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan."*

Rwy'n cofio mynychu'r oedfa olaf honno yn y capel cyn ei symud, a hefyd alw heibio wedyn i weld y gweithwyr yn datod yr adeilad garreg wrth garreg gan ryfeddu gweld rhif wedi ei osod ar bob carreg o gwmpas y drws a'r ffenestri cyn eu symud.

Nid oedd yr eglwys wedi ei chorffori yn 1715 er bod yna bregethu anffurfiol yn y plwyf. Yna, yn 1753 gan fod y blaid Galfinaidd yn fwy o nifer penderfynodd yr Arminiaid fynd allan o’r eglwys yn Dre-fach a chychwyn achos ar eu pen eu hunain yno yn 1756, ac adeiladu Capel Penrhiw maes o law yn 1777, y flwyddyn a enwir fel ‘blwyddyn y tair caib’.


Capel bychan syml a diaddurn yn allanol oedd y gwreiddiol gyda chwrt o’i flaen a mainc o gerrig o’i gwmpas i roi lle i eistedd i’r aelodau ar Sul y Cymundeb gan nad oedd digon o le iddyn nhw yn y capel ei hun. Yn 1870 adnewyddwyd y capel trwy osod pen newydd arno a’i baentio. Y prif bwrpas o’i symud i’r Amgueddfa Werin, yn ôl **Dr Iorwerth C Peate**, Ceidwad Sain Ffagan ar y pryd, oedd am ei fod yn enghraifft glasurol o bensaernïaeth syml ac urddasol tai cwrdd Cymru ar eu gorau.



Cofiaf yn dda hefyd am y gwrthwynebiad chwyrn lleol i’r bwriad o symud y capel. Ond, wedi ymgynghori a thrafod yn hir, cymeradwywyd y symud i’r Ymddiriedolwyr, ac ar Awst 1af 1951 pasiwyd yn unfrydol i drosglwyddo’r adeilad i Sain Ffagan, ac erbyn Mehefin 1956 roedd Capel Penrhiw yn ddiogel ar ei draed yn yr Amgueddfa Werin. Trosglwyddwyd yn ogystal lyfr cyfrifon y capel am y cyfnod 1785 – 1822 yn rhodd i’r Amgueddfa.

Mae’n dra thebyg mai to gwellt oedd i’r hen adeilad cyn gosod math o deils arno, ac yna yn 1870 rhoddwyd llechi meinion yn lle’r rhai trwchus. Wrth ddatod yr adeilad cafwyd nifer o gwils a hen boteli inc yn y llawr a hefyd ddarn o bren ac arno’r geiriau *‘Welsh Not’*.

Mae’r fynwent fechan yno o hyd ac yn cael ei chadw gan yr ardalwyr.



Mae’n werth nodi bod y diweddar Dr Iorwerth C Peate wedi ei gladdu wrth y capel presennol yn yr amgueddfa.

Mae’r **Parch DJ Goronwy Evans** wedi cyhoeddi llyfryn ar ‘Hanes Capel Penrhiw’ ac yn y llyfr ‘Hanes Plwyfi Llangeler a Phenboyr, 1899’, mae’r

awdur Daniel Jones (sydd wedi ei gladdu yn y fynwent) wedi cofnodi'n fanwl pwy fu'n gwasanaethu a chynnal yr achos yno.

A dyma benillion o waith Edwin Jones (brawd y Prifardd T Llew Jones) pan symudwyd y capel o Dre-fach Felindre i'r Amgueddfa Werin:

Datodwch ei drawstiau cedyrn,
Gan gofio am dwll pob hoel,
Symudwch ei bulpud gwladaidd,
Dihatrwch ei furiau moel.
Ac ewch ag ef i Sain
Ffagan
Does neb a all edliw'r
tro,
Symudwyd yr hen
gynulleidfa
Ymhell cyn ei symud o.
Ail hoeliwch ei drawstiau
cedyrn
Ail godwch ei furiau plaen,
Ond byth ni adferir yr angerdd
A'r sêl a fu ynddo o'r blaen.




Ac er i mi ymweld â Chapel Penrhiw yn yr Amgueddfa yn achlysurol ar hyd y blynyddoedd, y prynhawn Sul hwn sydd i ddod ym mis Mehefin fydd y gwasanaeth cyntaf i mi fod ynddo ers pan oeddwn yn blentyn – ac achlysur y byddaf yn ei drysori yn fawr iawn ac a fydd yn dwyn atgofion hynod felys bore oes.

**GWASANAETH CARTREF PLAS Y DDERWEN**

**Prynhawn Gwener – 16 Mehefin 2023 – 2 o'r gloch**

***gyda'n***

**Gweinidog**

**Croeso i bawb**



## OEDFA ARBENNIG

***YN*** union fel y daeth y ddau o Emaus i adnabod yr Iesu Atgyfodedig a theimlo rheidrwydd mawr i ddweud wrth yr un ar ddeg amdano, mae lle i ni heddiw amlygu'r un brwdfrydedd a lledaenu'r newyddion da am Waredwr y Byd ymhlith eraill. Dyna oedd bwrdwn neges ein Gweinidog, Y Parchedig Beti-Wyn James, yn ei myfyrdod yn yr oedfa arbennig ar fore pumed Sul mis Ebrill yn y Priordy pan ddaeth capeli Cymraeg y dref ynghyd i gydaddoli.



Roedd hanes y cerdded i Emaus yn Efengyl Luc ac uchafbwynt yr olygfa yn ystod swper pan 'agorwyd llygaid y ddeuddyn' a gweld Iesu yn ei holl ogoniant eisoes wedi'i gyflwyno i ni gan Emyr James (Y Tabernacl), Gareth Gravell (Y Priordy) a Bet Jones (Elim, Ffynnon-ddrain). Cyflwynodd Nigel George (Heol Awst) y weddi.

'*Gwisgwch amdanoch yr Arglwydd Iesu'* oedd cyngor ein Gweinidog i'r plant wrth siarad â hwy cyn iddynt fynd i'r Ysgol Sul. Esboniodd bwysigrwydd gwneud hynny mewn dull hynod o glir a syml gydag arbrawf yn dangos fel mae tanjerîn wedi'i bilio'n suddo mewn dŵr tra bo'n arnofio os yw'n cadw'i groen. Yn yr un modd mae Iesu'n gallu cadw'n pennau ninnau uwchben y don os ydym yn gadael iddo'n hamddiffyn. Hyfryd oedd clywed y plant yn ymateb mor gadarnhaol a ffraeth i'r stori.





Cawsom gwmni PIP (Pobl Ifanc y Priordy) ar ddechrau'r oedfa hefyd cyn iddynt fynd ar 'Helfa Drysor' o gwmpas y dref gan sylwi wrth wneud hynny ar bethau arwyddocaol yn hanesyddol a chrefyddol.

Yn ystod yr oedfa gwelsom fidio o Gôr Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn canu '*O aros gyda mi, y mae'n hwyrhau'* ar lan bedd Hedd Wyn ym Mynwent Artillery Wood, Boezinge, Gwlad Belg. Mae'n gyfieithiad gan **Lewis Edwards** o emyn

**H E Lyte** *'Abide with me, fast falls the eventide.* Mae'r emyn yn seiliedig ar Luc 24:29 ble mae'r Crist Atgyfodedig a'r ddau ddisgybl yn cydgerdded ar y ffordd i Emaus.




Y cyhoeddwr oedd Philip Jones ac roedd Heather Williams wrth yr organ. Y casglyddion oedd Greta, Miriam, Maredydd, Gwilym ac Osian.

Diolch am gwmni rhai o'n cyd Gristnogion yng nghapeli Cymraeg ein tref yn yr oedfa lawen a bendithiol hon.

**Mari Grug yn cyflwyno:**

# Cyngerdd Eitemau'r Urdd

**Nos Sadwrn 17 Mehefin 2023**
**Neuadd San Pedr, Caerfyrddin**
**7.30yh**



**Cyfle i fwynhau perfformiadau'r plant a pobl ifanc a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr eleni.**

**Tocynnau £6**
**Siop y Pentan neu wrth y drws**

**RHAGHYSBYSIAD**



**Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth**

**Dydd Sul 15 Hydref 2023**

**Tafarn y New Cross, Dryslwyn**

**12.30 (yn brydlon) ar gyfer bwyta am 1.00**

***Mwy o fanylion i ddod***

**Llinos Roberts…**



## Ymweliad yr Ysgol Sul â Chartref Erw Hir

## *7 Mai 2023*

A hithau'n benwythnos Gŵyl y Banc roedd hi'n braf iawn dychwelyd i Erw Hir eto eleni, a chael croeso cynnes iawn fel arfer. Bu'r plant yn sgwrsio gyda'r preswylwyr, a hwythau yn amlwg yn falch iawn o gael eu cwmni a rhannu eu hanesion.

Thema'r gwasanaeth oedd 'Diolch', ac er gwaetha'r holl heriau sydd yn ein hwynebu ar hyn o bryd, mae gennym gymaint i fod yn ddiolchgar amdano.

Roedd trigolion Erw Hir yn amlwg wrth eu boddau yn clywed y plant yn canu a darllen, a diolch i bob un ohonynt am eu cyfraniadau gwerthfawr. Roedd nifer o'r preswylwyr o dan deimlad wrth wrando ar y plant, ac yn dweud cymaint roedden nhw wedi codi eu calonnau. Cafwyd ambell emyn ar y thema 'diolch' a daeth rhai o'r plant ymlaen i sôn am beth roedden nhw'n teimlo'n ddiolchgar amdanynt.

Yn gyntaf roedd Greta yn diolch am ei dwylo (D) er mwyn ysgwyd llaw, chwifio a gwneud pethau caredig. Tro Cadi wedyn oedd diolch am iechyd (I) ac am bawb sydd yn ein helpu i gadw'n iach. Ifan oedd nesaf yn diolch am ofal (O) ac am staff arbennig Erw Hir sydd yn gofalu am bawb sydd yn byw yno. Alys nesaf yn diolch am lyfrau (L) er mwyn ein helpu i ddysgu a deall y byd yn well, ac i gloi roedd Hedd yn diolch am gael chwerthin a chwarae (CH) gyda ffrindiau. Cafwyd darlleniad gan Cadi a Tomos cyn cloi'r gwasanaeth gyda gweddi gan Gwenan, a phob un ohonynt wedi cyflwyno yn glir a graenus.

A gan mai diolch oedd thema ein gwasanaeth mae'n addas iawn ein bod ni'n diolch i Angharad am gyfeilio ac i staff a thrigolion Erw Hir am y croeso twymgalon eto eleni.




Mae cael y cyfle i fynd â'r Ysgol Sul allan i'r gymuned yn hynod o bwysig, ac roedd ymateb preswylwyr Erw Hir yn adrodd cyfrolau.

## YR YSGOL SUL YN ERW HIR











# Ifanc@Priordy

Da iawn i bawb a fu'n cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd!




## Taith Gerdded Hirddydd Haf

Dewch gyda ni am wâc nos Wener, 14 Gorffennaf.
Dyma ffordd wych o ddod â'r tymor ysgol i ben!
Gadael maes parcio Heol Y Prior am 6.00
4 milltir o daith ond mae'n wastad y rhan fwyaf o'r ffordd!
Dewch â digon o ddiod a byrbryd i chi gael cadw i fynd!
Croeso i bawb o bob oed.

## Calendr y mis

4 Mehefin – Ysgol Sul gyda Jayne
11 Mehefin – Cwrdd Teulu Sul Y Tadau (wythnos ynghynt!)
16 Mehefin – Dim Ysgol Sul
25 Mehefin – Gemau Cristnogol i'r Ysgol Sul a PIP gyda Sioned a Llinos J





# CHWILOTAIR BEIBLAIDD
# LLYTHYREN 'LL'

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y | A | R | T | S | E | L | L | L | L | A | I | A | B |
| D | E | Y | H | Y | D | L | N | L | O | D | D | L | E |
| D | T | L | L | L | L | Y | E | Y | I | L | D | L | L |
| A | Y | L | O | L | L | A | G | T | D | Y | Y | Y | L |
| L | D | Y | Y | L | L | Y | Y | H | D | Y | N | W | L |
| L | D | G | D | E | L | Y | L | Y | Y | L | E | O | L |
| A | E | A | H | W | Y | T | R | R | B | L | W | D | L |
| L | G | D | L | O | F | Y | E | L | A | W | A | R | L |
| H | S | H | A | D | R | W | O | W | L | Y | L | A | W |
| L | E | R | L | S | D | R | L | Y | L | N | L | E | Y |
| D | L | L | L | E | I | L | L | L | L | O | H | T | T |
| L | L | L | D | S | L | E | L | H | D | G | Y | H | H |
| L | L | I | N | A | C | H | O | L | L | Y | L | W | A |
| Y | T | L | C | I | I | H | L | Y | R | G | H | R | U |

LLINACH, LLESTR, LLYFR, LLWYNOG, LLADD, LLYTHYR, LLOER, LLWYTHAU, LLYWODRAETHWR, LLYGAD, LLAWENYDD, LLESGEDD, LLABYDDIO, LLEWOD

*Hwyl tan fis nesaf,*
*Beti-Wyn*



## TAITH GERDDED CALAN MAI











# TAITH GERDDED CALAN MAI

**Nia Lewis:**



**A hithau'n Galan Mai, beth well i'w wneud ond dianc i'r mynyddoedd a dyna'n union a wnaethom. I lawr â ni am Grymych ble roedd**



**Eurfyl Lewis yn aros amdanom i'n tywys ar hyd y llwybrau'n ddiogel. Gadael y ceir a chael ychydig o hanes Brwydr y Preselau. Oni bai am safiad dewr rhai o drigolion yr ardal ar ddiwedd y 1940au, ni fyddai'r mynyddoedd hyn yn agored i gerddwyr heddiw. Byddai wedi bod yn Epynt arall! Ymlaen â ni a chyfle i gael clonc a gwerthfawrogi byd natur. Heibio i Garn Siân cyn cael seibiant a phicnic hyfryd i werthfawrogi'r olygfa. Yn ein blaen wedyn a throedio i ben Foel Drygarn. Ymlwybro'n araf ar i lawr. Roeddwn i wedi gobeithio clywed y gog ond efallai bod gormod o glebran! Paned i orffen yn Nhafarn y Rosebush. Dyna oedd diwrnod hyfryd. Diolch am drefnu.**



**Ac meddai:**



**Betsan James (Y Priordy):** ***Wel, am amser hyfryd. Cwmnïaeth dda a digon o awyr iach a chyfle gwych i ddod i adnabod mwy o bobl!***



**Ann Jones (Cana*):*** ***Wedi mwynhau mas draw. Tywydd perffaith ar gyfer cerdded. Golygfeydd prydferth, cwmni da a phicnic blasus hefyd!!***



**Lyn Jones (Bancyfelin):** ***Diwrnod arbennig! Diolch i Eurfyl am drefnu'r diwrnod gyda'r 'bos'! Cwmni da. Yn falch o gyrraedd brig Foel Drygarn, cofiwch. Wedi dweud hynny, well 'da fi oedd cerdded lan nag i lawr!***



# MWYNHAU YN YR YSGOL SUL














## Tim Hayes…



### Trip PIP, Hwre!

Y dasg i'r Wyth Selog ar fore gwlyb Ebrill 30ain oedd datrys cyfres o gwestiynau ar daith trwy dref Caerfyrddin. Gan adael Y Priordy wedi'r emyn cyntaf, roedd 19 o gwestiynau i'w hateb cyn cyrraedd pen y daith. I'r sawl oedd yn llwyddiannus roedd gwobr yn eu disgwyl ar y terfyn – addewid o ddiod a danteithion yn Nghaffi Nero!!

Er bod y llwybr yn llai na milltir o hyd, arweiniodd y cwestiynau'r teithwyr brwd ar daith o dros 550 o flynyddoedd i olrhain hanesion rhai o fawrion ein cenedl. Mae'n syndod cymaint o hanes sydd yn llythrennol o flaen ein trwyn bob dydd, ond yn ein hast i gyrraedd rhywle erbyn amser arbennig, neu o dan bwysau bagiau siopa, 'dyn ni ddim yn sylwi llawer.






'Sgwn i sawl gwaith, er enghraifft, i chi gerdded trwy ddrysau'r Capel – ond a sylwoch chi ar y dyddiad uwchben y drws? Yn ôl y garreg yno, ym 1875 adeiladwyd y Capel - a dyna gwestiwn cyntaf y daith wedi'i ateb!

Roedd rhaid edrych lan yn uchel ac yna lawr i'r llawr, i'r dde ac i'r chwith er mwyn ateb pob cwestiwn. Cerddwyd i ben Heol Y Prior gan sylwi ar 5 addoldy gwahanol. Yna trwy ardd Eglwys San Pedr ac allan i Heol Y Brenin. Wedi pasio heibio'r Lyric ac ymlaen at Sgwâr Nott. Syfrdanwyd pawb gan hanes Robert Ferrar a

losgwyd yn y fan  a'r lle yn 1555 oherwydd ei ffydd. Mae'r garreg goffa iddo wrth droed cofeb Nott yn un syml ond trawiadol, ac yn hawdd i'w cholli oni bai eich bod chi'n chwilio amdani.





Ar ôl cwato o'r glaw am ychydig funudau, troi wedyn i'r dde, heibio Neuadd y Dref a chofeb Gwynfor. Hyd yn oed nawr, doedd y daith ddim ar ben - roedd rhaid sylwi ar y pot coffi enfawr y tu allan i adeilad y Nat West ac adnabod yr aderyn sy'n hedfan fry uwchben Neuadd y Dref … ac yna, cyrraedd Caffi Nero am ein gwobr haeddiannol!



Ond! O'r holl ryfeddodau a welwyd ar y daith, y peth a roddodd y sbri mwyaf oedd gweld llun Beti-Wyn a Sulwyn yn chwifio *Union Jack* yn ffenestr un o siopau Stryd Y Brenin!!!

Ond, o edrych yn fanylach . . . falle mai nid dyna pwy oedd yno ychwaith - ond yn hytrach yr hen Charles a Camilla!

Diolch BW am drefnu'r cwis ac am agor ein llygaid unwaith eto ar fore Sul, a diolch am y danteithion!



# DIWRNOD AMGYLCHEDD Y BYD

***DIWRNOD*** Amgylchedd y Byd 2023, a gynhelir ar 5 Mehefin 2023, dan nawdd Y Cenhedloedd Unedig, yw'r diwrnod rhyngwladol mwyaf i'r amgylchedd. Mae'r diwrnod hwn wedi tyfu i fod y llwyfan byd-eang mwyaf ar gyfer allgymorth amgylcheddol. Mae'n cael ei ddathlu gan filiynau o bobl ledled y byd.

Eleni, mae Diwrnod Amgylchedd y Byd yn dathlu hanner can mlynedd ers ei gynnal. Fe'i sefydlwyd ym 1972 a blwyddyn yn ddiweddarach, ym 1973, cynhaliwyd y diwrnod cyntaf gyda'r thema '*Dim Ond Un Daear*'.




**Y Traeth Ifori** - gwlad ar arfordir Gorllewin Affrica - sy'n westai i'r diwrnod eleni, gyda'r **Iseldiroedd** yn cefnogi. Bydd y diwrnod yn canolbwyntio ar ddatrysiadau i lygredd plastig sy'n difwyno'r amgylchedd.



Gyda'r tyfiant ym mhoblogaeth y byd, mae plastigau hawdd, tafladwy wedi dod yn ffordd o fyw. Ond mae'r bywyd prysur diddiwedd hwn yn cael effaith ar yr amgylchedd o'n cwmpas. Mae ein dibyniaeth ar y poteli a'r cynwysyddion gwastraffus hyn yn achosi problemau i fywyd gwyllt, planhigion a phobl hefyd.

Mae'r effaith fwyaf i'w gweld yn y môr. Mae miliynau o bysgod yn marw bob dydd. Amcangyfrif y bydd pwysau'r plastig yn y môr yn fwy na holl bwysau'r pysgod erbyn 2050. Dyma pam mae pobl yn poeni ac yn annog pobl i helpu i wneud gwahaniaeth.



A wyddech chi?

- Mae rhyw 11 miliwn tunnell o wastraff plastig yn llifo'n flynyddol i'r moroedd a gallai dreblu erbyn 2040
- Mae mwy nag 800 o rywogaethau morol ac arfordirol yn cael eu heffeithio gan y llygredd hwn drwy draflyncu, mynd yn sownd a pheryglon eraill.

**Meic** ydy'r gwasanaeth llinell gymorth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru – ond mae'n cynnwys negeseuon pwysig i bobl hŷn hefyd! Ar ei wefan, mae Meic yn awgrymu 5 peth y gall pawb ei wneud i helpu gyda'r broblem blastig:



***1. Siopa'n gyfeillgar***

Bod yn barod gyda bag y gellir ei ailddefnyddio wrth fynd i siopa.

***2. Defnyddio Poteli Dŵr y gellir eu hailddefnyddio***



Buddsoddi mewn poteli dŵr neu gwpanau y gellir eu hailddefnyddio yn hytrach na phrynu diod mewn plastig sydd yn cael ei daflu i'r bin.



**3. Osgoi plastigau dibwynt**

Prynu ffrwythau a llysiau yn rhydd, nid y rhai sydd wedi'u pecynnu mewn plastig yn barod.

***4. Ailgylchu popeth***



*Peidio ag ychwanegu at y broblem wrth ddewis peidio ag ailgylchu pethau sy'n gallu cael eu hailgylchu. Stopio rhoi popeth yn yr ysbwriel cyffredinol. Mae hynny'n ychwanegu at y pethau sy'n mynd i'r safle tirlenwi ac yn cael effaith ar blanhigion ac anifeiliaid. Mae llosgi deunyddiau plastig yn gallu rhyddhau cemegau gwenwynig. Mae mwy a mwy o eitemau yn gallu cael eu hailgylchu, felly mae'n bwysig edrych ar y label bob tro.*

***5. Codi tri***

Mae yna lawer o sefydliadau ac elusennau sy'n annog pobl i godi a gwaredu tri darn o blastig bob tro y byddant yn ymweld â'r traeth. Pe byddai pawb sy'n ymweld â'r traeth yn cario ychydig o ysbwriel bob tro, yna byddai'n gwneud gwahaniaeth mawr i gael gwared ar y plastig ar ein traethau.

***MAE'N*** werth i ni i gyd gofio thema bwysig Diwrnod Amgylchedd y Byd eleni a chyngor Meic i'n helpu i ddatrys llygredd plastig.

## Tudalen Blaen

### *Y Rheswm dros Ddewis y Dyfyniad*

Dyma'r emyn cyfan (Caneuon Ffydd 869) y dyfynnwyd yr ail bennill ohono ar dudalen blaen y Papur:

Mae neges yr emyn yn cydfynd yn llwyr ag amcanion a nodau Diwrnod Amgylchedd y Byd a ddethlir y mis hwn:



**Meddwl am fyd heb flodyn i'w harddu,**
**meddwl am wlad heb goeden na llwyn,**
**meddwl am awyr heb haul yn gwenu,**
**meddwl am wanwyn heb awel fwyn:**
**diolchwn, Dduw, am goed a haul a blodau,**
**diolchwn, Dduw, rhown glod i'th enw di.**



**Meddwl am fyd heb un anifail,**
**meddwl am gae heb wartheg nac ŵyn,**
**meddwl am afon heb un pysgodyn,**
**meddwl am wawr heb adar a'u swyn:**
**diolchwn, Dduw, am dy holl greaduriaid,**
**diolchwn, Dduw, rhown glod i'th enw di.**



**Meddwl am fyd heb bobol i'w lenwi,**
**pobman yn wag, y strydoedd a'r tai,**
**meddwl am dref heb draffig na hewlydd,**
**neb yma i garu, neb i faddau bai:**
**diolchwn, Dduw, am deulu ac am ffrindiau,**
**diolchwn, Dduw, rhown glod i'th enw di.**

Cyfieithiad yw'r emyn o eiriau Doreen Newport (1927-2004), athrawes gerdd a chyfeilydd a aned ym Manceinion.

Dywed **Cydymaith Caneuon Ffydd** fel y *'tyfodd yr emyn o sesiwn a arweiniwyd gan yr emynyddes yn Eglwys Gynulleidfaol Emannuel, Caergrawnt, lle yr anogodd y plant i feddwl am resymau dros ddiolch i Dduw, ac i ddychmygu sut le fyddai'r byd heb rai o'r pethau y cyfeirir atynt yn yr emyn hwn*.'

Cyfieithwyd yr emyn i’ r Gymraeg gan Yr Athro Siân Rhiannon, a aned yn Rhymni. Mae hi’n ymddiddori mewn hanes menywod, yr iaith Gymraeg ac addysg ac yn arbenigwraig ar hanes Cwm Rhymni. Yn perthyn i enwad yr Annibynwyr, mae’n briod â’r cerddor a’r cyfansoddwr Euros Rhys.



Mae’r emyn yn ein hannog i fod yn ymwybodol o bob agwedd ar ein hamgylchfyd ac i’w gwerthfawrogi’n llawn- y byd naturiol gyda’i anifeiliaid a phlanhigion, ei bobl a chymunedau – ac i ystyried y cyfan yn gynnyrch y greadigaeth ddwyfol







**Bydd Stondin gan y Priordy yn yr Ŵyl – Cofiwch alw!**




**COFIWCH**
**BARHAU**
**I**
**GADW**
**STAMPIAU**
**A**
**CHETRYS**





## Tip-It!

**Nos Wener, 16 Mehefin 2023 – 7 o'r gloch**
**Fox & Hounds**
**Croeso i bawb**
**Elw'r noson at Gapel Bancyfelin**






**TAITH GERDDED HIRDDYDD HAF**

**Nos Wener 14 Gorffennaf 2023**
**Gadael Maes Parcio Heol y Prior am 6**
**Pedair Milltir o Daith – Gwastad yr Holl Ffordd**
**Dewch â digon o Ddiod a Byrbryd i'ch cadw i fynd**
**Croeso i bawb o bob oed**

# AGOR Y LLYFR YN
# YSGOL Y DDERWEN






**Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio**
***yn cyflwyno...***

# NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

**Edrych nôl**

**DATHLIADAU'R PASG ELENI OEDD:**

**Sul y Blodau**: Oedfa yn Salem
**Nos Iau Cablyd**: Oedfa Gymun yn Eglwys Santes Fair (dan nawdd Cyngor Eglwysi'r Dref ) – rhai ohonom yn tystio am y tro cyntaf i'r weithred o 'olchi traed' yn digwydd mewn oedfa



**Bore Gwener y Groglith**: Oedfa Gymun yn Salem dan nawdd y Cyngor Eglwysi gyda Gorymdaith drwy'r dref.
**Nos Wener y Groglith yn Salem**: Myfyrdod gan rai o ieuenctid Salem ar y thema: '*Wrth edrych Iesu ar dy groes'*
**Bore Sul y Pasg**: Oedfa Gymun yn Salem



**Ac yn fwy diweddar**

**PEN-BLWYDD CAPEL SALEM**

Fel arfer dathlwn ben-blwydd yr achos ar yr ail Sul yn mis Mai..Dathlwn drwy gynnal ein Gŵyl Bregethu .Gwahoddir Gweinidogion o bell ac agos i arwain ein haddoliad.



Eleni croesawyd **Y Parch Carwyn Siddalll** sy'n weinidog ar Hen Gapel, Llanuwchlyn, Eglwys Fedydddiedig Ainon, Llanuwchlyn, Eglwysi Fethodistaidd Rhydygwalia a Cynllwyd, Annibynwyr y Bala. Mae Carwyn hefyd yn Gydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN**

**CWRDD CHWARTER**
**Dydd Iau, 9 Medi 2023**
**Capel Bwlch y Corn**

**Y Gynhadledd am 4 o'r gloch**
**Cyfarfod yr Hwyr am 7 o'r gloch**
**Siaradwr Gwadd – Hefin Wyn**

**Croeso i bawb**

---

**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**

**Nos Fercher 20 Medi 2023 am 7.30**
**yn y Festri**
**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda**

---

**DALIER SYLW - DIGWYDDIAD O BWYS**
**Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin**



**CAMU 'MLAEN**
**Nos Lun, 17 Gorffennaf 2023 -7.00**
**Festri Heol Awst**

**Noson gyda'r**
**Parchedig Carwyn Siddall, Llanuwchllyn,**
***Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau'r Undeb***

**Dewch i gwrdd â Carwyn ac i glywed am ei gynlluniau**
***Croeso cynnes i bawb***

---

**NOSON YNG NGHWMNI DAFYDD IWAN**



**Clwb y Cwins, Caerfyrddin**
**Nos Wener, 30 Mehefin 2023 – 7.30**

***Cyfle i holi cwestiynau, cael sgwrs a selffi gyda Dafydd a chlywed ambell gân hefyd!!***
**Tocynnau: £10 - Siop y Pentan neu Peter a Meinir ☎01267 232240**
**Croeso cynnes i bawb**

# DYLETSWYDDAU

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Mehefin | | Gorffennaf | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Gareth Gravell | | Alison Parsons | |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mehefin | 4 | Miriam Wyrwoll | Gorffennaf | 2 | |
| | 11 | | | 9 | Sul y Cyfundeb |
| | 18 | Pererindod | | 16 | Thelma Evans |
| | 25 | Betsan James | | 23 | |
| | | | | 30 | Yn y Tabernacl |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mehefin | 4 | Bore | Betsan James a Rachel Davies |
| Gorffennaf | 2 | Bore | Alwen Owens a Fiona Elias |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mehefin | 4 | Delyth Gwawr Davies | Gorffennaf | 2 | Heledd Mai Jones |
| | 11 | Y Plant | | 9 | Sul y Cyfundeb |
| | 18 | Pererindod | | 16 | Peter Hughes Griffiths |
| | 25 | Alison Parsons | | 23 | June Thomas |
| | | | | 30 | Yn y Tabernacl |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mehefin | Huw Michael | Gorffennaf | Alison Parsons |



Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin
GŴYL Y SUL SBESIAL
9 Gorffennaf
2.00-3.15
Yr Egin
Caerfyrddin
S4C
Catrin Stevens
â hanes rhyfeddol:
HEDDWCH NAIN/MAMGU
Deiseb 400,000 enw merched Cymru i ferched America yn 1923
Sesiwn i'r plant yn Y Stiwdio
Band Y Priordy yn cyfeilio
Ysgol Sul Blaen-y-coed yn arwain addoliad
MYNEDIAD AM DDIM! (Casgliad at y costau)
Caffi a chyfle i gymdeithasu
Croeso cynnes iawn i bawb!

***EIN*** cofion cynnes at bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig am Jayne Jones a Nansi Hayes. Dymunwn yn dda i bob un ohonoch. Ein dymuniadau gorau hefyd i Ann Griffiths sydd bellach wedi ymgartrefu yng Nghartref Dôl-y-felin yn Sanclêr.

Bu Catrin Williams ar **Bwrw Golwg** ar **Radio Cymru** yn trafod gyda John Roberts beth sydd gan y Beibl i’w ddweud am Frenhiniaeth heb sôn am berthynas gwleidyddiaeth â chrefydd.



Bu Non Gwilym yn sôn wrth siarad â **bbc cymrufyw** mor bwysig yw cynnwys pobl sydd â Syndrom Downs ym mhob agwedd ar gymdeithas. Cododd ei sylwadau wrth i gwmni teganau Mattel o’r Unol Daleithiau gynhyrchu dol sydd â Syndrom Down mewn ymgais i fod yn fwy cynhwysol. Bydd Non yn bendant yn prynu’r dol yma i Erin, sy’n chwech oed. *Meddai: ‘Pan oeddwn i'n fach ro'dd dol Barbie â ffigwr ffantastig, coesau hir a gwallt melyn - ond dyw rhan fwyaf o ferched ddim yn edrych fel yna wrth gwrs. Yn ddiweddar mae 'na Barbie sydd mewn cadair olwyn, un arall gyda choes prosthetig ac un â chymorth clyw - mae hyn yn ddatblygiad pwysig fel bod pob plentyn os ydyn nhw'n dymuno yn cael chwarae gyda rhywun tebyg iddyn nhw eu hunain ac yn dod i wybod mwy am gymdeithas. Mae hi mor bwysig codi ymwybyddiaeth*.’

Bu’n Gweinidog yn annerch yng Nghyfarfod yr Hwyr yng Ngwrdd Chwarter y Tabernacl, Hendy-gwyn ar Daf gan gymryd *Dirnad a Datblygu Doniau yn ein Heglwysi* yn destun. Cafwyd anerchiad gyfoethog yn cynnwys digon o syniadau i feddwl amdanynt mewn dyddiau pan fo angen cwmpasu pob person a dawn wrth wasanaethu Duw yn ein heglwysi, yn enwedig wrth i nifer ein gweinidogion leihau’n sylweddol a chyflym.

Bu Carys Edwards, ynghyd â Nia Clwyd yn sôn am hanes Proseict 23 – Chwilio’r Chwedl. sef cynhyrchiad ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, Llanymddyfri ar **Heno** ar **S4C.** Bu’n gynllun blwyddyn gyfan yn cyfuno’r celfyddydau ac yn glytwaith episodig o chwedlau a storïau Sir Gâr ac yn cynnwys dros 950 o blant. Cyrhaeddodd uchafbwynt ar Faes yr Eisteddfod pan fu’r gynulleidfa’n symud o amgylch i chwilio am y chwedlau gwahanol.

Un a fu’n brysur iawn ar y cyfryngau’n ddiweddar yw Huw Michael. Ar **Dros Ginio** ar **Radio Cymru** bu’n trafod elw mawr cwmni BP yn nhri mis cyntaf 2023, y rhesymau am hyn a'r cwestiwn a ddylai'r llywodraeth godi treth mwy uchel fyth na'r 75% sy'n bodoli

eisoes. Yna ar **Post Prynhawn** ar **Radio Cymru** bu'n trafod y newyddion fod mwy o drydan wedi ei gynhyrchu gan dyrbinau gwynt na thyrbinau nwy yn ystod tri mis cynta'r flwyddyn. Mae hyn o ganlyniad i fwy o dyrbinau gwynt wedi eu hadeiladu ers y llynedd, ac i'r gaeaf gymharol fwyn gyda llai o alw am drydan (a defnydd thyrbinau nwy o ganlyniad i hynny). Ac ar **Newyddion S4C** bu'n trafod stori am Bwyllgor y Senedd yn beirniadu cwmnïau ynni am osod mesuryddion talu ymlaen llaw mewn tai pobl sy'n cael anhawster i dalu eu biliau. Soniodd hefyd am fanteision mesuryddion talu ymlaen llaw.

Dymunwn yn dda i Miriam a Peter Wyrwoll yn eu cartref newydd yng Nghwmffrwd. Pob hapusrwydd i chi.

Ein braint yw cael llongyfarch y canlynol:

- Heledd ap Gwynfor ar gael ei hethol yn siryf Tref Caerfyrddin ac Emlyn Schiavione ar gael ei ethol yn Ddirprwy Faer. Pob dymuniad da i'r ddau ohonynt.

- Llyr Huws Gruffydd ar gael ei ethol yn arweinydd Plaid Cymru dros dro. Mae Llyr, sy'n cynrychioli Gogledd Cymru yn y Senedd, yn fab i Peter a Meinir Hughes Griffiths ac yn frawd i Meleri Llwyd O'Leary ac yn un o blant y Priordy. Pob dymuniad da iddo.

- Rita Brown ar ddod yn hen fam-gu unwaith eto!! Ganed Awel Hedd i Shôn a Mared Williams a chwaer i Twm Gruffudd, ar 20 Ebrill 2023 yn Ysbyty Glangwili. Ein dymuniadau da i'r teulu bach.



- Harri Evans ar ddod yn hen dad-cu am y tro cyntaf. Ganed Lara Mai, merch a phlentyn cyntaf Phil a Gemma Evans yn Ysbyty Glangwili ar 19 Mai 2023.Pob dymuniad da i'r teulu bach.



***I GLOI***, dymuniadau da i Sulwyn Thomas, Cadeirydd Swyddogion ein Gofalaeth, a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar 13 Mehefin 2023. Cyfarchion cynnes oddi wrth bob un ohonom!



**EISTEDDFOD YR URDD**
**Canlyniadau Gwaith Cartref a Llwyfan yn ein rhifyn nesaf**

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Gorffennaf / Awst i'n Gweinidog neu Alun Charles**

## CYDYMDEIMLAD

Torrwyd dolen gyswllt arbennig â'r Priordy'n ddiweddar drwy farwolaeth Sally Jones, St Lawrence, Brithdir, gweddw'r diweddar David C Jones ar 9 Mai 2023. Codwyd David Jones yn ddiacon yn y Priordy ym 1965 ond roedd yn gallu olrhain cyswllt ei deulu â'n heglwys i ddyddiau'r gweinidog cyntaf, sef Y Parchedig D Cadfan Jones.  Gellir gweld yr hanes ym Mhapur Priordy, Ionawr 2012. Roedd Sally Jones yn un o ffyddloniaid Eglwys Crist ond byddai'n dod yn rheolaidd gyda'i gŵr i'r Priordy ar nos Sul. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i mab Peter (un a fu'n canu'r organ yn y Priordy) a'r teulu cyfan yn eu hiraeth a'u colled.

## DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Michael a Meleri Llwyd O'Leary, Tomos Morgans a Nia Lewis am y lluniau'r mis hwn.

**CWIIS Y SALMAU**
**beibl.net**
**ATEBION**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | ddweud | 6 | arno |
| 2 | bendithio | 7 | dda |
| 3 | tywyllwch | 8 | dim |
| 4 | iawn | 9 | amser |
| 5 | dda | 10 | dannedd |

**Gallwch hefyd droi at beibl.net**

**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**

**CYFARFDYDD BLYNYDDOL 28-30 MEHEFIN 2023**

**CYFUNDEB DWYRAIN DINBYCH A FFLINT**

***Cynhelir y cyfarfodydd eleni dan lywyddiaeth y Parchedig Beti-Wyn James yn y Stiwt, Rhosllannerchrugog, gan ymweld â Chapel y Groes Ebeneser Wrecsam ar gyfer yr oedfa o fawl***

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mehefin** | **4** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | **C** |
| | **11** | ***Bore*** | Cwrdd Teulu Sul y Tadau (Wythnos Ymlaen Llaw) gyda'n Gweinidog | |
| ***Sul y Tadau*** | **18** | ***Bore*** | Pererindod yr Ofalaeth<br>*Manylion y tu mewn* | |
| | **25** | ***Bore*** | Nigel Davies | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gorffennaf** | **2** | ***Bore***<br>***P'nawn*** | Ein Gweinidog<br>Gŵyl Hirddydd Haf ym Mharc y Dref am 4.30 | **C** |
| | **9** | | Sul y Cyfundeb<br>*Manylion y tu mewn* | |
| | **16** | ***Bore***<br>***Hwyr*** | Y Parchedig Andrew Lenny<br>Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu yng Nghapel Penygraig gyda Helen Gibbon am 5 | |
| | **23** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |
| | **30** | ***Bore*** | Capeli'r Dref yn cydaddoli yn y Tabernacl am 10.30 gyda'r Parchedig Andrew Lenny | |

| **CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant**<br>**OD – Oedfa Deulu SS- Sul Sbesial** | | | | | | | | |
| **Mehefin** | | | | **Gorffennaf** | | | | |
| **4** | **11** | **18** | **25** | **2** | **9** | **16** | **23** | **30** |
| **✓** | **CP** | **-** | **✓ / PIP** | **✓ / PIP**<br>**Parti Diwedd Tymor** | **SS** | **-** | **-** | **-** |

**Rhyddheir oedfa ddigidol bob Sul**

| | |
|---|---|
| **Apêl Mis Mehefin**<br><br>**BANC BWYD**<br>**EGLWYS CRIST** |  |